# Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol o'r enw *60% - Rhoi llais iddyn nhw - Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y System Cyfiawnder Ieuenctid*

Mae ymateb manwl i bob un o'r argymhellion isod.

**Argymhelliad 1**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell*

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnull uwchgynhadledd o randdeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y sector gyda'r nod o ffurfio ffrwd waith newydd gan edrych yn benodol ar effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc a'r cysylltiad â'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Dylid cwblhau'r uwchgynhadledd a'r llif gwaith cyd-ddilynol cyn diwedd 2023 a chynnwys camau realistig, targedau mesuradwy, ac amserlen ar gyfer eu cwblhau o fewn blaenraglen waith Bwrdd Cyfiawnder Cymru Gyfan.*

**Ymateb: Derbyn**
Mae gwaith ar y gweill o dan y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid i lunio Fframwaith Atal ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Bydd hwn yn ystyried y gwaith ataliol sy'n cael ei wneud gan dimau gwasanaethau troseddau ieuenctid ar draws Cymru, gan sicrhau bod fframwaith ar waith i rannu gwybodaeth a hyrwyddo cysondeb y ddarpariaeth. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys sut y bydd timau gwasanaethau troseddau ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth gyda meysydd polisi datganoledig a bydd yn strwythuro sgyrsiau am gyfleoedd posibl i wella cryfder a chysondeb darpariaeth y gwasanaethau hyn ar draws Cymru.

**Goblygiadau ariannol** – Ddim yn hysbys ar hyn o bryd

**Argymhelliad 2**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell*

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau addysg lleol, arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion a*

*byrddau iechyd lleol pan fo hynny'n briodol i sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn plant a phobl ifanc wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.*

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'i gyflwyno mewn ysgolion o fis Medi 2022 yn rhoi pwyslais ar sgiliau siarad. Mae llafaredd yn rhan allweddol o'r sgil trawsgwricwlaidd llythrennedd sy'n rhan orfodol o'r cwricwlwm am y tro cyntaf, a bydd yn cael ei ddysgu ar draws pob pwnc.

Mae'r ddogfen 'Cenhadaeth ein Cenedl: Safonau a Dyheadau Uchel i Bawb' yn nodi y bydd pob dysgwr yn cael cymorth wedi'i dargedu i wella sgiliau trawsgwricwlaidd wrth inni gyflawni ein Pecyn Llafaredd a Darllen.

Mae'r gweithgareddau ataliol presennol yn cynnwys cynllun cyflawni 'Beth am Siarad â Fi' Llywodraeth Cymru, sy'n blaenoriaethu cymorth seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ar lefel sylfaenol, ar lefel y boblogaeth ac ar lefel wedi'i thargedu. Drwy adnabod problemau yn gynnar a sicrhau'r cymorth cywir, gallwn leihau'r galw am wasanaethau arbenigol a rhyddhau'r gallu i gefnogi dysgwyr gydag anghenion mwy arbenigol, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol.

Amcan 4 y cynllun Beth am Siarad â Fi yw 'rhoi'r sgiliau i'r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu'. Mae'r adnodd llwybr hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru Gyfan ar gyfer plant 0-5 oed wedi'i gyflwyno er mwyn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwn. Gall lleoliadau ar draws Cymru gael mynediad at ystod o ddewisiadau hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae gennym hefyd dudalen Beth am Siarad â Fi sy'n bwrpasol ar gyfer ymarferwyr, ac sy'n darparu ystod eang o adnoddau i gefnogi ymarferwyr i roi cymorth seiliedig ar dystiolaeth.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**<u>Argymhelliad 3</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell*

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu drwy Fwrdd y Rhaglen Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid i asesu dichonoldeb cael therapyddion lleferydd ac iaith y GIG yn gweithio mewn dalfeydd yng ngorsafoedd yr heddlu, gyda'r bwriad o'u lleoli ledled Cymru yn y tymor canolig. Dylai'r gwaith dichonoldeb cynnar hwn gael ei gwblhau o fewn tri mis a dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda'i chanfyddiadau.*

**Ymateb: Gwrthod**
Rydym yn cydnabod y buddion a fyddai'n deillio o'r argymhelliad hwn ar gyfer pobl

ifanc yn y ddalfa. Fodd bynnag, dim ond oddeutu 800 o therapyddion lleferydd ac iaith cofrestredig sydd yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes digon o therapyddion lleferydd ac iaith yn cael eu cyflogi gan y GIG i wneud y llwyth gwaith ychwanegol hwn. Bydd astudiaeth ddichonoldeb yn canfod beth fyddai'r pwysau ar y gweithlu. Byddai hyn yn gofyn am leoedd hyfforddi ychwanegol ac am greu swyddi. Mae potensial i ddefnyddio therapyddion lleferydd ac iaith preifat ond o ystyried y sefyllfa ariannol heriol sydd ohoni, byddai'n her sylweddol i ariannu'r gwaith o addysgu'r therapyddion lleferydd ac iaith ychwanegol i fodloni'r galw yn yr hirdymor, ac yn her i ariannu cyflogaeth y gweithwyr hyn, yn y system iechyd neu yn y system gyfiawnder.

Un o'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu yw i AaGIC adolygu'r proffesiynau perthynol i iechyd, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, i ddeall y sefyllfa bresennol a'r anghenion ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Dylai hyn ddarparu peth o'r data a dadansoddiad i ddeall gofynion y gweithlu.

**Goblygiadau ariannol** – Ddim yn hysbys ar hyn o bryd. Fodd bynnag gall fod goblygiadau sylweddol ar y gweithlu o ystyried yr amseroedd aros presennol. Gall goblygiadau ariannol posibl ddod i'r amlwg gan nad yw Therapyddion Lleferydd ac Iaith y GIG yn cael eu cyflogi i wneud hyn ar hyn o bryd. Mae data amseroedd aros (Chwefror 2023) yn dangos bod 3,805 o bobl yn aros am asesiad a thriniaeth Therapi Lleferydd ac Iaith ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 4**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell*

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid yn y system cyfiawnder ieuenctid i ehangu'r hawl cyfredol o 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid, a chyflwyno adroddiad o ran cynnydd o fewn 6 mis.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor i sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant yn parhau i fod yn ganolog i'r penderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw. Bydd hyn yn cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol i sicrhau cynnig cyson ac wedi'i gydlynu ar gyfer eiriolaeth annibynnol ar draws y system cyfiawnder ieuenctid sy'n grymuso, yn gwrando ac yn ymateb i leisiau plant.

Bydd y gwaith ar y Fframwaith Atal ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid sy'n cael eu cyflenwi o dan y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn sicrhau bod y cynnig hwn yn cael ei gynnwys a'i ddefnyddio'n effeithiol ar draws y system cyfiawnder ieuenctid.

**Goblygiadau ariannol** – Dim goblygiadau uniongyrchol

**Argymhelliad 5**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell*

*Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar Gynnydd HMPPS o ran gweithredu argymhellion yr Adroddiad Cyd-Arolygu ar Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Gan nad yw'r System Cyfiawnder Troseddol wedi'i ddatganoli, ni all Llywodraeth Cymru roi sylwadau ar gynnydd. Fodd bynnag, er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl niwrowahanol yn y System Cyfiawnder Troseddol yn unol ag argymhelliad 1 o'r Adroddiad Cyd-Arolygu ar Niwroamrywiaeth in the System Cyfiawnder Troseddol, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynghori ar feysydd datganoledig a, lle bo'n briodol, rhoi cyngor ar ddatblygu strategaethau priodol. Rydym yn gweithio gyda'r cydlynwyr niwroamrywiaeth newydd mewn carchardai yng Nghymru ac yn helpu i hwyluso gwell cysylltiadau rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gwasanaethau niwroamrywiaeth yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol** – Dim goblygiadau uniongyrchol

**Argymhelliad 6**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell*

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoli therapyddion lleferydd ac iaith ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru. Dylai'r gwaith yma gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Gwrthod**
Bydd y gwaith ar Fframwaith Atal ar gyfer troseddau ieuenctid yng Nghymru, sy'n cael ei gyflwyno o dan y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ac y cyfeirir ato yn ein hymateb i Argymhelliad 1, hefyd yn berthnasol i'r argymhelliad hwn.

Rydym yn cydnabod y buddion i bobl ifanc sy'n deillio o'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, dim ond oddeutu 800 o therapyddion lleferydd ac iaith cofrestredig sydd yng Nghymru. Does dim digon o therapyddion lleferydd ac iaith yn cael eu cyflogi gan y GIG i wneud y llwyth gwaith ychwanegol hwn ar ben gwasanaethau'r GIG. Byddai hyn yn gofyn am leoedd hyfforddi ychwanegol a gweithlu ychwanegol. Bydd astudiaeth ddichonoldeb yn canfod beth fyddai'r pwysau ar y gweithlu. Mae potensial i ddefnyddio therapyddion lleferydd ac iaith preifat, ond o ystyried y sefyllfa ariannol heriol sydd ohoni, byddai'n her sylweddol i ariannu'r gwaith o addysgu'r therapyddion

lleferydd ac iaith ychwanegol i fodloni'r galw yn yr hirdymor, ac yn her i ariannu cyflogaeth y gweithwyr hyn yn y system iechyd neu yn y system gyfiawnder.

Un o'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu yw i AaGIC adolygu'r holl broffesiynau perthynol i iechyd, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, i ddeall y sefyllfa bresennol a'r anghenion ar gyfer y dyfodol o ran cyflenwi gwasanaethau. Dylai hyn ddarparu peth o'r data a dadansoddiad i ddeall gofynion y gweithlu.

**Goblygiadau ariannol** – Gall fod goblygiadau sylweddol ar y gweithlu o ystyried yr amseroedd aros presennol. Mae potensial y bydd goblygiadau ariannol sylweddol gan nad yw therapyddion lleferydd ac iaith y GIG yn cael eu cyflogi i wneud hyn ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 7**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell*

*Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i fynd i'r afael ag unrhyw brinder sy'n codi yn y proffesiwn therapi lleferydd ac iaith, mapio rolau a chymwyseddau presennol gweithlu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a sicrhau cynllunio gweithlu digonol ar gyfer y dyfodol. Dylai'r gwaith mapio cychwynnol gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu ym mis Ionawr 2023. Yn y cynllun mae dau gam gweithredu penodol wedi'u neilltuo i AaGIC yn ymwneud â'r holl Broffesiynau Perthynol i Iechyd:

- Bydd AaGIC yn adolygu'r holl broffesiynau perthynol i iechyd i ddeall y sefyllfa bresennol a'r anghenion ar gyfer y dyfodol o ran cyflenwi ein gwasanaethau, gan arwain at gynllun ar gyfer cadw gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae'r cam gweithredu hwn i'w gwblhau erbyn 31 Gorffennaf.

- Bydd AaGIC yn defnyddio'r canllawiau gweithlu proffesiynau perthynol i iechyd i drefnu'r modd y bydd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn gweithio mewn gwasanaethau integredig, gan sicrhau'r effaith fwyaf, y llesiant gorau a chymysgedd o sgiliau a llywodraethu proffesiynol. Mae'r cam gweithredu hwn i'w gwblhau erbyn 30 Medi.

Y bwriad yw y bydd y camau gweithredu hyn yn cynorthwyo i fynd i'r afael â chynllunio'r gweithlu ar draws y proffesiynau perthynol i iechyd, gan gynnwys y proffesiwn therapi lleferydd ac iaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu, sy'n uniongyrchol atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol. Bydd y bwrdd hwn yn sicrhau cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun. Rwy'n deall bod Caroline Walters o Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn aelod o'r bwrdd hwn.

Mae AaGIC yn gyfrifol am y broses flynyddol o gomisiynu addysg a hyfforddiant yng Nghymru, i fynd i'r afael â gofynion y gweithlu ar ran GIG Cymru.

Ar hyn o bryd mae 49 o leoedd hyfforddiant ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith ar draws Cymru, a'r rhain wedi'u rhannu ar draws y ddwy raglen hyfforddi sydd ar gael yn Wrecsam a Chaerdydd. Rhoddwyd 10% yn fwy o leoedd i fyfyrwyr yn 2020, gyda 49 o leoedd ar gael yn lle 44 o leoedd. 49 yw'r nifer o hyd ar gyfer 2023/24, i gyd-fynd â'r galw am y gwasanaeth.

Bydd AaGIC yn parhau i feithrin cysylltiadau â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG a grwpiau rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru i greu a llywio'r cynllun addysg a hyfforddiant ar gyfer 2024/25. Yn y pen draw, cyfrifoldeb AaGIC yw cynhyrchu cynllun y gellir ei gyflawni ac sy'n bodloni anghenion hirdymor y gwasanaeth o fewn cyd-destun y capasiti addysg a hyfforddiant sydd ar gael.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol AaGIC.